Fy nhaith ddysgu Cerdd

Blwyddyn 9 Tymor 3



Uned ymholi: Sut gallwn ddefnyddio ein sgiliau wcylili a chanu i greu perfformiad ensemble caboledig a deniadol?

Dysgu Blaenorol

Yn ystod eich taith mi fyddwch yn …

Adolygu sgiliau craidd yr ukulele a chanu a gosod targedau personol.

Chwarae cordiau cyfarwydd yn gywir.

Newid cordiau mewn amser gyda'r gerddoriaeth.

Canu'n hyderus gan ddefnyddio osgo da.

Adolygu cordiau C, Am, F a G.

Dysgu cordiau newydd

Perfformio cân gyfarwydd fel dosbarth.

Ymarferion lleisiol yn canolbwyntio ar anadlu a thraw.

Hunanasesu a gosod targedau.

Perfformio patrymau strymio gwahanol yn gywir.

Cynnal tempo cyson.

Cydlynu canu a chyfeiliant.



Yr ydym ar y daith hon oherwydd …

Bydd y daith hon yn ein helpu i:

- Ddatblygu hyder fel perfformwyr.
- Gwella ein sgiliau technegol ar yr ukulele
- Canu gyda chywirdeb, mynegiant a rheolaeth.
- Cydweithio'n effeithiol ag eraill.
- Deall sut mae cerddoriaeth yn cyfathrebu syniadau ac emosiynau.
- Paratoi perfformiad terfynol o safon i gynulleidfa.

Cysylltiad â'r Datganiad Beth sy'n Bwysig

"Mae mynegi ein hunain drwy'r celfyddydau yn hanfodol i gyfathrebu dynol."

Drwy chwarae'r wcylili a chanu, byddwn yn datblygu ein gallu i gyfathrebu'n greadigol, gweithio gydag eraill a mynegi ein syniadau a'n teimladau drwy gerddoriaeth.

Cyflwyno patrymau strymio i lawr ac i fyny.

Ymarfer rhythmau syncopedig.

Perfformio caneuon gyda gwahanol batrymau cyfeilio.

Trafod sut mae rhythm yn effeithio ar hwyliau ac arddull cerddoriaeth.

Fy nhaith ddysgu yn Cerdd



Uned ymholi/Enquiry unit: Sut mae cerddoriaeth yn helpu i adrodd stori mewn ffilm?

Gwybodaeth a dysgu blaenorol: Sgiliau bysellfwrdd sylfaenol a safle bysedd cywir.Perfformio alawon syml gan ddefnyddio nodiant llaw dde.Darllen nodiant y trebl cla gwerthoedd rhythmig (semibrif, minim, crotshét a chwafr).Deall elfennau cerddoriaeth:Creu cyfansoddiadau syml gan ddefnyddio technoleg gerddorol.Adnabod offerynnau a theuluoedd yr offerynnau cerdd.Gweithio'n gydweithredol mewn gwersi cerdd.Defnyddio Noteflight Learn i fewnbynnu a golygu alawon syml.

Yn ystod eich taith mi fyddwch yn …

Cael cyflwyniad i Gerddoriaeth Ffilm

Dysgu beth yw cerddoriaeth ffilm?Pwrpas cerddoriaeth ffilm:

Creu hwyliau ac awyrgylch

Cynrychioli cymeriadau

Cefnogi'r gweithredu

Adeiladu tensiwn ac ataliad

Dysgu am hanes cerddoriaeth ffilm ac am Cyfansoddwyr Ffilm Enwog

Sgiliau

- Gwrando ac adnabod elfennau cerddorol.
- Disgrifio cerddoriaeth gan ddefnyddio geirfa gerddorol gywir.
- Deall sut mae cerddoriaeth yn effeithio ar gynulleidfa.

Perfformio Cerddoriaeth Ffilm ar yr Allweddell

Gwybodaeth

- Darllen nodiant cerddorol yn gywir.
- Deall llofnodion allwedd ac amsernodau.
- Adnabod patrymau melodig.

Sgiliau

- Perfformio alawon gyda rhythm ac uchder sain cywir.
- Cadw curiad cyson.
- Datblygu rhuglder wrth chwarae'r bysellfwrdd.
- Dilyn marciau deinameg.
- Yn perfformio darnau byr gyda chymorth.
- Yn perfformio'n rhugl ac yn fynegiannol.

Yr ydym ar y daith hon oherwydd …

Mae cerddoriaeth ffilm yn rhan bwysig o'n bywydau bob dydd. Mae'n ein helpu i ddeall cymeriadau, emosiynau a straeon mewn ffilmiau, gemau a theledu. Drwy astudio cerddoriaeth ffilm, bydd disgyblion yn datblygu eu sgiliau perfformio, cyfansoddi, gwrando a gwerthuso wrth ddefnyddio offerynnau, nodiant cerddorol a thechnoleg gerddoriaeth.

Bydd y daith hon yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion:

- Archwilio sut mae cerddoriaeth yn cyfathrebu syniadau ac emosiynau.
- Datblygu creadigrwydd a hyder fel cerddorion.
- Perfformio cerddoriaeth o safon mewn amrywiaeth o arddulliau.
- Defnyddio technolegau digidol yn effeithiol i gyfansoddi a golygu cerddoriaeth.
- Datblygu sgiliau sy'n cefnogi'r Pedwar Diben drwy fod yn:
    - **Ddysgwyr uchelgeisiol a galluog**
    - **Gyfranwyr mentrus a chreadigol**

Deall Leitmotifau

Gwybodaeth

- Diffiniad leitmotif:
    - Thema gerddorol sy'n cael ei hailadrodd ac sy'n gysylltiedig â chymeriad, lle neu syniad penodol.

Sgiliau

- Adnabod leitmotifau mewn clipiau ffilm.
- Disgrifio sut mae leitmotifau'n datblygu drwy ffilm.
- Trafod eu heffaith ar y gynulleidfa.

Cyfansoddi Leitmotif gan ddefnyddio YuStudio a Noteflight Learn

Gwybodaeth

Nodweddion leitmotif effeithiol:

- Hawdd ei gofio
- Byr ac unigryw
- Yn adlewyrchu personoliaeth cymeriad
- Yn defnyddio elfennau cerddorol yn bwrpasol

Sgiliau YuStudio

Byddwch yn:

- Creu dolenni (loops) a syniadau cerddorol.
- Arbrofi gyda sain ac offeryniaeth.
- Haenu gweadau cerddorol.
- Golygu tempo a deinameg.

Sgiliau Noteflight Learn

Byddwch yn:

- Mewnbynnu nodiant yn gywir.
- Golygu rhythmau ac uchderau sain.
- Ychwanegu deinameg a marciau mynegiannol.
- Defnyddio chwarae'n ôl i fireinio cyfansoddiadau.

Briff Cyfansoddi

Creu leitmotif ar gyfer:

- Arwr
- Dihiryn
- Creadur ffantasi
- Archarwr
- Cymeriad gwreiddiol



Fy nhaith ddysgu Cerdd

Blwyddyn 9 Tymor 2



Uned ymholi: Beth sy'n gwneud cân yn gofiadwy ac yn effeithiol, a sut gallwn greu ein cân wreiddiol ein hunain?

Dysgu Blaenorol Perfformio fel rhan o ensemble.Deall elfennau cerddorol sylfaenol: Darllen nodiant rhythmig a melodig syml.Defnyddio offerynnau dosbarth a/neu dechnoleg gerddorol.Gwrando ar ac ymateb i amrywiaeth o arddulliau cerddorol.Creu motiffau ac ostinatos byr.Defnyddio meddalwedd cerddoriaeth neu DAW yn sylfaenol.

Yn ystod eich taith mi fyddwch yn …

Gwrando ar ganeuon o wahanol genres.

Adnabod:Pennill Cytgan Pont Cyflwyniad (Intro) Diweddglo (Outro)

Trafod: Bachyn cerddorol Geiriau Alaw Rhythm

Archwilio sut mae cyfansoddwyr yn trefnu syniadau cerddorol.

Archwilio ffurfiau poblogaidd: AB Pennill-Cytgan

Pennill-Cytgan-Pont

Technoleg:Recordio syniadau yn YuStudio.

Nodi syniadau yn Noteflight.

Creu dilyniant cordiau syml.

Cyfansoddi alaw sy'n cyd-fynd â'r cordiau.

Gweithgareddau

Archwilio dilyniannau cordiau cyffredin:

C–G–Am–F

G–D–Em–C

D–A–Bm–GByddwch yn:Arbrofi ar allweddell,ukulele neu gitâr.

Byrfyfyrio alawon.Alaw yn cyd-fynd â'r harmoni.

Defnydd o ailadrodd a chyferbyniad.

Deall sut mae geiriau'n cyfleu ystyr.Creu penillion a chytgan.

Defnyddio technegau iaith effeithiol.

Dewis thema:Cyfeillgarwch Hunaniaeth Gwydnwch Chwaraeon

Materion cymdeithasol Cymru a'r gymuned

Archwilio:Odli Ailadrodd Delweddaeth Adrodd stori

Cyfuno syniadau cerddorol a geiriol.

Cynhyrchu drafft cyflawn o gân.

Technoleg:YuStudio

Recordio lleisiau

Ychwanegu traciau cefndir

Golygu recordiadau

Yr ydym ar y daith hon oherwydd …

Mae cerddoriaeth yn rhan bwysig o'n bywydau bob dydd. Mae caneuon yn ein helpu i fynegi emosiynau, adrodd straeon, dathlu digwyddiadau a chysylltu â phobl eraill. Mae pob cân lwyddiannus yn defnyddio cyfuniad o alawon, rhythmau, geiriau a strwythurau sy'n helpu'r gwrandäwr i gofio ac ymateb i'r gerddoriaeth.

Ar y daith hon byddwch yn archwilio beth sy'n gwneud cân yn llwyddiannus ac yn ystyrlon. Byddwch yn gwrando'n feirniadol ar amrywiaeth o ganeuon, yn datblygu eich sgiliau cyfansoddi ac yn defnyddio technoleg gerddorol fel YuStudio a Noteflight i greu eich cân eich hun.

Bydd y daith hon yn eich helpu i ddatblygu fel:

Dysgwyr uchelgeisiol a galluog drwy ymchwilio, arbrofi a datrys problemau cerddorol.

Cyfranwyr mentrus a chreadigol drwy greu a datblygu syniadau gwreiddiol.

Dinasyddion egwyddorol a gwybodus drwy archwilio sut mae cerddoriaeth yn adlewyrchu cymdeithas, hunaniaeth a diwylliant.

Unigolion iach a hyderus drwy fynegi eich syniadau, eich teimladau a'ch profiadau trwy gerddoriaeth.

*Sgiliau Trawsgwricwlaidd**Llythrennedd***

Ysgrifennu geiriau cân.Gwerthuso gwaith.

Rhoi a derbyn adborth.

***Rhifedd** Gwerthoedd rhythmig.Patrymau strwythur cân.Amseru a dilyniannu.*

***Cymhwysedd Digidol** Recordio sain.*

Golygu traciau.

Defnyddio meddalwedd nodiant.

Cydweithio'n ddigidol.